| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Gweithgaredd Gwylio a Deall yn seiliedig ar gyfweliad Cymraeg ag Adrian Metcalfe |
| Disgrifiad: | Gwylio fideo lle mae Adrian Metcalfe yn sôn am ei waith yn actio sioeau am Dylan Thomas ac ateb cwestiynau cysylltiedig |
| Grwpiau blwyddyn | CA3 - Blwyddyn 8 |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | Llafaredd<br>• gwrando ar esboniadau o brosesau, dilyniant neu safbwyntiau a nodi'r prif bwyntiau yn eu trefn<br><br>Ysgrifennu<br>• defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd... yn gywir |
| Adnoddau sydd eu hangen: | • Fideo 'Adrian Metcalfe – Cymraeg' https://www.youtube.com/watch?v=IhClejCokz8<br>• Adnodd y Dysgwyr – Cyfweliad ag Adrian Metcalfe<br>• Trawsgrifiad Cyflawn |
| Trefn addysgu: | • Esbonio mai actor yw Adrian Metcalfe sy'n cyflwyno sioeau am Dylan Thomas yn Saesneg. Dweud ei fod yn sôn am ei waith yn y darn y byddwch yn ei wylio.<br>• Dosbarthu'r adnodd, darllen drwy gwestiynau Rhan A fel bod pawb yn eu deall.<br>• Gwylio'r fideo gymaint o weithiau sydd angen er mwyn ateb y cwestiynau.<br>• Trafod yr atebion.<br>• Tynnu sylw at ofynion Rhan B. Beth yw 'trawsgrifiad'?<br>• Gwylio'r fideo eto, a'r dysgwyr yn llenwi'r bylchau yn y trawsgrifiad.<br>• Dangos y trawsgrifiad cyflawn ar y sgrin, a pharau i farcio gwaith ei gilydd, gan roi sylw i sillafu a threiglo. Pam mae 'drama/plentyndod/Nghymru/bersonol / bwysig' yn treiglo? |
| Gweithgareddau estyn: | Ehangu ar ateb cwestiwn 1, sef 'ugain mlynedd'. Oes ffordd arall o ddweud hyn? Pa rifau eraill sydd â dwy ffurf? Gellid llunio grid sydyn ar y bwrdd gwyn fel yr enghraifft isod i'r dysgwyr ei lenwi, ac yna trafod pryd rydym yn defnyddio'r ffurfiau traddodiadol. |

| Ffurf fodern | Ffurf draddodiadol |
|---|---|
| un deg un | |
| | deuddeg |
| un deg tri | |
| | pedwar ar ddeg |
| un deg pump | |
| un deg chwech | |
| | dau ar bymtheg |
| un deg wyth | |
| | pedwar ar bymtheg |
| | ugain |
| dau ddeg un | |
| | deg ar hugain |
| | deugain |
| pum deg | |
| | trigain |

**ADNODD Y DYSGWYR - Cyfweliad ag Adrian Metcalfe**
Actor yw Adrian Metcalfe sy'n cyflwyno sioeau am Dylan Thomas yn Saesneg. Yn y fideo, mae'n sôn am sioe y mae'n ei pherfformio.

**A – Gwylio a Deall**
Gwyliwch y fideo ac ateb y cwestiynau hyn.

1. Pryd dechreuodd Adrian Metcalfe berfformio'r ddrama am Dylan Thomas?

2. Am ba ran o fywyd Dylan Thomas mae'r ddrama?

3. Beth sy'n gyffredin rhwng Adrian Metcalfe a Dylan Thomas?

4. Beth mae Adrian Metcalfe eisiau ei gyflwyno i'r gynulleidfa yn y perfformiad?

**B – Llenwi bylchau**
Gwrandewch ar Adrian Metcalfe yn siarad, dilyn y trawsgrifiad a llenwi'r bylchau.

Ysgrifennais i ............................ o'r enw 'Reminiscences of Childhood' yn Saesneg

tua ............................ mlynedd yn ôl, a nawr dwi'n perfformio'r ddrama mewn

theatrau, neuaddau yng .............................. .

Mae'n ymwneud â ...................... Dylan Thomas yn Abertawe ac yn sir Gaerfyrddin.

............................. Dylan Thomas yn Abertawe, a fi hefyd. I mi yn

............................., y geiriau lliwgar a'r sgript sy'n bwysig. Geiriau Dylan sy'n

..............................

Beth sy’n bwysig i fi fel ............................. yw bod yn driw i’r ysgrifennu, a gobeithio gwelwch chi ............................. o gymeriad Dylan Thomas ar .............................. .

**Trawsgrifiad cyflawn:**

Ysgrifennais i **ddrama** o’r enw ‘Reminiscences of childhood’ yn Saesneg tua **ugain** mlynedd yn ôl, a nawr dwi’n perfformio’r ddrama mewn **theatrau**, neuaddau yng Nghymru

Mae’n ymwneud â **phlentyndod** Dylan Thomas yn Abertawe ac yn sir Gaerfyrddin. **Ganwyd** Dylan Thomas yn Abertawe, a fi hefyd. I mi yn **bersonol**, y geiriau lliwgar a’r sgript sy’n bwysig. Geiriau Dylan sy’n **bwysig**.

Beth sy’n bwysig i fi fel **actor** yw bod yn driw i’r ysgrifennu, a gobeithio gwelwch chi **fflach** o gymeriad Dylan Thomas ar **lwyfan**.